OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 730 (Cy. 114)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023

*Gwnaed* *29 Mehefin 2023*

*Yn dod i rym* *10 Gorffennaf 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Gorffennaf 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbydac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 mewn grym.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2, 3 a 4 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mehefin 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

**1.** Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o farciau

ildio’r gylchfan i’r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r dwyrain.

**2.** Y darn cyfan o’r ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy’n ymestyn o’i drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r gorllewin hyd at farciau ildio’r gylchfan i’r gorllewin o Meadows Bridge.

**3.** Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

**4.** Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

## ATODLEN 2

### Terfynau Cyflymder 40 mya neu 50 mya Dros Dro

**1.** Y darn o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o bwynt 128 o fetrau i’r de-ddwyrain o’i chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 600 o fetrau i’r gogledd-orllewin o’i chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

**2.** Y darn o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy’n ymestyn o bwynt 77 o fetrau i’r dwyrain o farciau ildio’r gylchfan i’r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r dwyrain.

**3.** Y darn o’r ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy’n ymestyn o’i drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r dwyrain hyd at bwynt 83 o fetrau i’r gorllewin o farciau ildio’r gylchfan i’r dwyrain o Meadows Bridge.

**4.** Y darn o’r gerbytffordd tua’r gorllewin sy’n ymestyn o’i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 128 o fetrau i’r dwyrain o’i chyffordd â’r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

**5.** Y darn o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy’n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i’r gorllewin o farciau ildio’r gylchfan i’r gorllewin o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r gorllewin.

**6.** Y darn o’r ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy’n ymestyn o’i drwyniad ffisegol â’r gerbytffordd tua’r gorllewin hyd

at bwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge.

## ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 600 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

## ATODLEN 4

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

**1.** Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham.

**2.** Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain.

**3.** Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at farciau ildio'r gylchfan i'r dwyrain o Meadows Bridge.

**4.** Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Cross Hands.

**5.** Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'r marciau ildio i'r gorllewin o Meadows Bridge hyd at ei drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

**6.** Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Meadows Bridge sy'n ymestyn o'i drwyniad ffisegol â'r gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at farciau ildio'r gylchfan i'r gorllewin o Meadows Bridge.